Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 26 Chwefror 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

193. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Wynne Hughes.

194. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau buddiant gan y Cynghorydd Ken Hawkins ynghylch eitem 17 – taliad am gostau llifoleuo Eglwys Sant Pedr a gan y Cynghorwyr Ifan Wyn ac Emrys Wynne yng nghyswllt eitem 21 – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

195. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau isod.

25.01 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
27.01 Cyngerdd Elusennol Maer Dinbych yn Neuadd y Dref, Dinbych.
30.01 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith – gohiriwyd.
01.02 Cyfarfod Gweithgor Cynllun Argyfwng Rhuthun a Gweithgor yr Hen Lys.
13.02 Rasys crempogau yn Sgwâr Sant Pedr a chyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.
15.02 Cyfarfod gyda Mr Mervyn Roberts, Rheolwr Busnes HSBC, yng nghangen Rhuthun.
17.02 Perfformiad 'Robin Hood' – cynhyrchiad Cymdeithas Pantomeim Rhuthun 2018.
18.02 Cyfarfod yng Nghastell Rhuthun ynghylch dathliadau Gefeillio.
19.02 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
22.02 Gweithdy hyfforddiant cynllunio yng Ngwesty Castell Rhuthun.
24.02 Cinio dathlu Urdd Cynddilywaidd Brenhinol y Byffalos.

196. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith – gohiriwyd.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod Gweithgor Cynllun Argyfwng Rhuthun a'r Rasus Crempogau.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
Cyng. Gavin Harris	Cyfarfod Gweithgor Cynllun Argyfwng Rhuthun a Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod gyda Tom Booty, Rheoli Asedau Cyngor Sir Ddinbych a Caroline Brindle, Busnes a Thwristiaeth Cyngor Sir Ddinbych.
Cyng. Ken Hawkins	Cynorthwyo peiriannydd Smith's of Derby i wasanaethu'r clociau yn Eglwys Sant Pedr, ar y Sgwâr a chloc y Cyngor Tref, a chynorthwyo i drefnu'r Rasus Crempogau ar ran Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn y Banc Bwyd, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras ynghylch ymateb yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion addysg ychwanegol a chyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith – gohiriwyd.
Cyng. Menna Jones	Dim i'w adrodd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Gweithgor Cynllun Argyfwng Rhuthun a Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a chyfarfod gyda Mr Geraint Parry, Pennaeth Ysgol Brynhyfryd.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Is-bwyllgor Theatr John Ambrose a Rasus Crempogau ar y Sgwâr.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.

197. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018 yn gofnod cywir.*

198. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

199. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018. Holodd Cynghorydd a oes gan y Cyngor Tref bolisi ffurfiol ynghylch ymweliadau safle a chytunwyd y dylid cynnwys hyn fel eitem agenda yn y dyfodol i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.*

200. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.*

201. DYDDIAD YMGYRCH CASGLU SBWRIEL YN Y DREF

Gofynnwyd i'r aelodau nodi dyddiad yr ymgyrch casglu sbwriel, a gynhelir ddydd Sadwrn, 24 Mawrth – cyfarfod yng maes parcio Cae Ddôl am 10am a dychwelyd erbyn hanner dydd. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Rosie Hughes a Dave Snape gan na fyddent ar gael y diwrnod hwnnw.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau y cynhelir ymgyrch casglu sbwriel y dref ddydd Sadwrn, 24 Mawrth.*

202. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol. Ystyriwyd yr eitemau a restrwyd, ac awgrymwyd gosod arwydd yn datgan bod defnyddwyr y parc sglefrfyrddio yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain ac edrych hefyd ar arbed dogfennau i'r 'Cwmwl' fel dull o gadw gwaith a fyddai'n hygyrch oddi ar y safle.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

203. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Adroddwyd bod Undeb Credyd Cambrian wedi hysbysu'r Cyngor Sir, yn dilyn ei Gyfarfod Blynyddol, na fyddai taliad difidend eleni. Awgrymwyd edrych ar gyfrifon cynilo HSBC.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.*

204. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol i Fand Pres Ieuenctid Sir Ddinbych gan Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych. Trafododd yr aelodau'r cais ac roeddynt o'r farn y dylai'r mudiad ofyn am gymorth ariannol gan bob Cyngor Tref yn y sir gan ei fod yn fudiad i Sir Ddinbych gyfan.

PENDERFYNWYD*: peidio â rhoi cymorth ariannol ar hyn o bryd, ond annog y sefydliad i gyflwyno cais eto petai ganddynt ddigwyddiad penodol yn y dyfodol.*

205. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYSWLLT CYMDEITHAS GWARCHOD AR-LEIN SIR Y FFLINT A WRECSAM

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan y mudiad uchod yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gynllun gwarchod y gymdogaeth yn yr ardal leol. Roedd yr aelodau'n awyddus i dderbyn rhagor o fanylion am y cynllun.

PENDERFYNWYD*: gwahodd cynrychiolwyr i annerch Cynghorwyr mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

206. CYNRYCHIOLYDD CYNGOR TREF RHUTHUN AR BWYLLGOR SIOE RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau benodi cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor Sioe Rhuthun. Awgrymwyd gofyn i'r Cynghorydd John Wynne Hughes a oedd ganddo ddiddordeb yn y rôl.
PENDERFYNWYD*: gofyn i'r Cynghorydd John Wynne Hughes a oedd ganddo ddiddordeb mewn bod yn gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Sioe Rhuthun.*

207. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2018-19

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn bod yn aelod o Un Llais Cymru yn 2018-19 ar bris gostyngedig 50% o £411.00. Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne agor deialog gydag Un Llais Cymru ynghylch y rhwystrau i fod yn aelodau a gwirfoddolodd i gynorthwyo gyda hyn.
PENDERFYNWYD*: cynnal deialog gydag Un Llais Cymru.*

208. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ionawr 2018.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ionawr 2018.*

209. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5134	Zurich Municipal	Taliad yswiriant 2018-19		£4,566.45
5135	Clwb Bowlio Gorphwysfa	Cyfraniad		£200.00
5136	Homestart Sir Ddinbych	Cyfraniad		£300.00
5137	Eisteddfod Gydwladol Llangollen	Cyfraniad		£100.00
5138	Ambiwlans Awyr Cymru	Cyfraniad		£250.00
5139	Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd	Cyfraniad		£100.00
5140	HCI Data Limited	Adnewyddu ruthintowncouncil.gov.uk a cyngortrefrhuthun.gov.uk am ddwy flynedd	*	£167.76
5141	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig	*	£4,518.54
5142	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5143	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5144	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£9.28
5145	The Play Inspection Company	Archwiliadau blynyddol maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa a pharc sglefrfyrddio Cae Ddôl	*	£156.00
5146	Fineline	Cardiau pen-blwydd 100 oed Cyngor Tref Rhuthun x 100	*	£164.66
5147	Eglwys Sant Pedr	Llifoleuo 01.01.17 – 31.12.17		£919.05

210. GWEITHGOR I ADOLYGU A DIWEDDARU 'RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL'

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried penodi aelodau o'r Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio, ynghyd ag aelodau allanol, i fod yn aelodau'r gweithgor. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Gavin Harris gadeirio'r Grŵp. Amlinellodd y cynlluniau ar gyfer wythnos o weithgareddau'n gysylltiedig â diweddaru'r Cynllun. Awgrymwyd gwahodd Tom Booty, Caroline Brindle a Bethan Hughes o Gyngor Sir Ddinbych, Katy Morgan-Williams a Roger Edwards o Gymdeithas Hanes Rhuthun i fod yn aelodau'r gweithgor, yn ogystal â'r Cynghorwyr Anne Roberts a Heather Williams yn cynrychioli'r Gymdeithas Ddinesig a'r Cynghorwyr Stephen Beach a Robert Owen-Ellis o'r Pwyllgor Cynllunio, a'r Cynghorwyr Menna Jones a Keiran

Allsopp-Robson o'r Pwyllgor Amwynderau, ynghyd â'r Maer a'r Dirprwy Faer.
PENDERFYNWYD*: sefydlu gweithgor a chael diweddariadau rheolaidd, ar nosweithiau'r cyfarfodydd Pwyllgor ac yn y Cyngor llawn.*

211. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Apêl Rhuthun, Mr Iwan Vaughan Evans, i ddod i drafod codi arian tuag at yr Eisteddfod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref, pan fydd Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Urdd, yn annerch yr aelodau.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Mr Iwan Vaughan Evans i ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref i drafod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w chynnal yn Sir Ddinbych yn 2020.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal y cyfarfod mewn cyfrinachedd ar gyfer yr eitem a ganlyn.

212. YR HEN LYS

Ystyriodd yr aelodau'r datblygiadau diweddaraf o ran yr Hen Lys, a chyflwynodd y gweithgor eu hargymhellion ynghylch y cynnig isaf a'r cynnig uchaf. Roedd y Cynghorwyr yn awyddus i sicrhau bod y cytundeb rhagbrynu wedi'i lunio yn gyntaf, cyn gwneud cynnig.
PENDERFYNWYD*: derbyn y terfynau a argymhellwyd a rhoi pwysau ar gwblhau'r cytundeb rhagbrynu.*

213. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 26 Mawrth 2018 at 7.00pm.*